# Pecyn Dogfen Cyhoeddus

CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Cadeirydd ac Aelodau Cyngor Sir | Dyddiad: | Dydd Llun, 29 Ebrill 2013 |
| | | Deialu Union: | 01824712589 |
| | | e-bost: | dcc_admin@denbighshire.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Cyfeiriaf at y rhaglen ar gyfer cyfarfod y **CYNGOR SIR** sydd i'w gynnal am **10.00 am, DYDD MAWRTH, 7 MAI 2013 yn SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN** ac ryw'n amgáu'r adroddiad(au) canlynol.

| Rhif Agenda | Eitem |
|---|---|
| **10** | **EFFEITHLONRWYDD YN Y GWEITHLU** (Tudalennau 3 - 6)<br>Ystyried adroddiad y Pennaeth Adnoddau Dynol (copi i ddilyn) ar yr arbedion sydd eu hangen i gyflawni amcanion Effeithlonrwydd yn y Gweithlu sydd wedi eu nodi yn y gyllideb ac ystyried y camau gweithredu i weithredu'r arbedion hynny. |

Yn gywir

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithio a Democrataidd

**AELODAETH**

**Cynghorwyr**

Ian Armstrong
Raymond Bartley
Brian Blakeley
Joan Butterfield
Jeanette Chamberlain-Jones
William Cowie
Ann Davies
James Davies
Meirick Davies
Richard Davies
Stuart Davies
Peter Duffy
Peter Arnold Evans
Hugh Evans
Bobby Feeley
Carys Guy
Huw Hilditch-Roberts
Martyn Holland
Colin Hughes
Rhys Hughes
Hugh Irving
Alice Jones
Huw Jones
Pat Jones
Gwyneth Kensler
Geraint Lloyd-Williams
Margaret McCarroll
Jason McLellan
Barry Mellor
Win Mullen-James
Bob Murray
Peter Owen
Dewi Owens
Merfyn Parry
Paul Penlington
Arwel Roberts
Gareth Sandilands
David Simmons
Barbara Smith
David Smith
Bill Tasker
Julian Thompson-Hill
Joe Welch
Cefyn Williams
Cheryl Williams
Eryl Williams
Huw Williams

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Prif Weithredwr / Chief Executive Mohammed Mehmet PhD BSc
Prif Swyddfeydd Y Cyngor/Council Offices, Rhuthun/Ruthin, Sir Ddinbych/Denbighshire LL15 1YN.
Ffôn/Tel (01824) 706234 Ffacs/Fax (01824) 707446

,

| | |
|---|---|
| **Adroddiad ar gyfer:** | **Y Cyngor Llawn** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **7 Mai 2013** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol** | **Y Cyng. Barbara Smith/Linda Atkin, Pennaeth Adnoddau Dynol** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Linda Atkin, Pennaeth Adnoddau Dynol** |
| **Teitl:** | **Effeithlonrwydd Gweithlu** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar effeithlonrwydd gweithlu. Mae'r wybodaeth yn gywir ar 26 Ebrill 2013. Bydd adroddiad llafar llawn yn cael ei roi yn ystod y cyfarfod a bydd yn cynnwys yr argymhellion.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Yn ystod y cyfarfod ar 9 Ebrill 2013, gofynnwyd i'r Cyngor gysylltu eto â'r Undebau Llafar i weld a oes modd dod i gytundeb ynglŷn â'r effeithlonrwydd gweithlu angenrheidiol a fyddai'n dileu'r angen i weithredu'r newidiadau arfaethedig i amodau a thelerau cyflogaeth.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bydd yr argymhellion yn cael eu rhoi ar lafar i'r Cyngor Llawn.

## 4. Manylion am yr Adroddiad

Yn dilyn cyfarfod y Cyngor Llawn ar 9 Ebrill 2013, bu i'r Cyngor gyfarfod â'r Undebau Llafur i geisio deall eu safbwyntiau a'u disgwyliadau yn barod ar gyfer cyfarfod y Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol ar 24 Ebrill 2013. Ar gyfer y cyfarfod hwnnw, bu i'r Cyngor gyflwyno cynnig diwygiedig a oedd yn:

1) Dileu'r angen i weithwyr ddarparu cerbyd yn y dyfodol ac yn
2) Dileu'r newidiadau arfaethedig i dalu treuliau diogelwch a tharfu i ganiatáu trafodaethau pellach ar y mater hwn.

Cafwyd trafodaeth gynhyrchiol yn ystod cyfarfod y Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol lle cytunwyd i ddod i gytundeb cyn cyfarfod y Cyngor Llawn gyda chymorth y Cydysgrifenyddion ar 25 Ebrill 2013 a chynnal cyfarfod Arbennig o'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol cyn cyfarfod y Cyngor Llawn i lunio'r cynigion a'r argymhellion terfynol.

Cafwyd cyfarfod cymodol ar 25 Ebrill gyda'r Cydysgrifenyddion. Lluniodd y Cyngor gynnig diwygiedig a gafodd ei gyflwyno'n ffurfiol i'r Undeb Llafur brynhawn ddydd Gwener. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, ni yw'r Undebau Llafur wedi cael digon o amser i ystyried y cynnig a llunio ymateb.

Mae'r cynnig diwygiedig, sy'n adeiladu ar 1 a 2 uchod, yn cynnwys cynnig ar gyfer cyfnod trosiannol i weithredu cyfraddau treuliau teithio Cyllid a Thollau EM. Mae trafodaethau'n parhau ynglŷn â thelerau'r trefniadau trosiannol.

Mae cyfarfod Arbennig o'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol ddydd Mercher 1 Mai 2013.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae hyn yn hanfodol i sicrhau bod yr awdurdod yn cyflawni'r arbedion effeithlonrwydd angenrheidiol.

**6. Faint fydd yn costio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae ei effaith ar wasanaethau yn dibynnu ar ba arbedion effeithlonrwydd y cytunir arnynt. Ni ddylai costau ychwanegol fod ynghlwm â hyn gan mai arbedion effeithlonrwydd ydyn nhw. Fodd bynnag, os na chaiff yr arbedion effeithlonrwydd eu cyflawni y flwyddyn nesaf, bydd yr effaith ar wasanaethau yn un sylweddol gan y byddai angen gwneud penderfyniad anodd i un ai ddiswyddo neu wneud toriadau i wasanaethau rheng flaen.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid cynnwys yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.**

Bydd angen ymgymryd ag Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar y cynnig terfynol.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Cyflwynwyd adroddiad i'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol ar 24 Ebrill 2013.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Bydd y Cyngor yn dal i wynebu her ariannol sylweddol yn ystod y blynyddoedd nesaf gan fod toriadau i arian sector cyhoeddus y DU yn debygol i barhau yn y tymor canolig. Mae'r Gyllideb a ddarparwyd gan Ganghellor y Trysorlys yn ddiweddar yn dangos toriadau pellach i gyllid Llywodraeth Cymru a fydd, o ganlyniad, yn debygol o leihau arian y llywodraeth leol. Mae bron yn anorfod y bydd hyn yn arwain at bennu targedau arbed uwch i gynghorau lleol Cymru na'r targedau sydd wedi eu cynnwys yn y cyllidebau a'r cynlluniau ariannol tymor canolig. Mae cyllideb 2013/14 eisoes yn cymryd yn ganiataol y bydd arbedion o £200mil yn cael eu gwneud trwy'r arbedion effeithlonrwydd arfaethedig gyda £300mil arall yn 2014/15. Os na chyflawnir yr arbedion hyn bydd yn rhaid i wasanaethau ganfod arbedion, yn ychwanegol at y £6m maen nhw'n ceisio ei ganfod yn barod, dros gyfnod o ddwy flynedd mewn sefyllfa ariannol sy'n gwaethygu.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Bydd y risgiau'n dibynnu ar p'un ai cytunir ar yr arbedion effeithlonrwydd ai peidio. Os cytunir arnyn nhw, bydd y risgiau'n amrywio o wasanaethu i wasanaeth. Os na chyflawnir yr arbedion trwy'r cynnig hwn, bydd angen gwneud arbedion a thoriadau llai dymunol a all olygu risgiau gwahanol i'r Cyngor.

Bydd y risgiau i wasanaethau os na all staff deithio i'w gwaith yn cael eu lleihau drwy'r trefniadau canlynol. Bydd staff sy'n methu defnyddio eu cerbyd eu hunain ar gyfer gwaith yn rhannu cerbydau lle bynnag bo hynny'n bosib. Trefnir y bydd pobl sy'n teithio cryn dipyn yn gallu defnyddio cerbyd dynodedig. Bydd trefniadau diogelu a amlinellir yn yr adroddiad hwn hefyd yn lleihau'r risg.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Adran 112 Deddf Llywodraeth Leol 1972

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag